# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 19EG TACHWEDD, 2018**

Lleoliad

**Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan, Porthmadog**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01268 679490**

**annession@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 13/11/2018)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

## AELODAU CABINET

Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cyllid)

## CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL

Mr Iwan Trefor Jones

## PENNAETH CYLLID

Dafydd Edwards

## PENAETHIAID UWCHRADD

Mr Dylan Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

## PENAETHIAID CYNRADD

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mrs Menna Wynne Pugh – Ysgol Penybryn
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Nefyn
Mr Trystan Larsen - Ysgol Rhostryfan
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Sedd Wag

## UNDEBAU ATHRAWON

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

## LLYWODRAETHWYR

Arfon
Mr Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth a Bodfeurig

Meirionnydd
Elen ap Gwilym – Ysgol Bro Tegid
Disgwyl enwebiad - Llywodraethwyr Uwchradd

Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Disgwyl Enwebiad – Llywodraethwr Uwchradd

## ESGOBAETH

Anest Gray Frazer

## YSGOLION EGLWYS

Owain Lemin Roberts (Ysgol Maesincla)

## YSGOLION ARBENNIG

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion:**

Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu
Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 5 - 9

I gadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018.
(Copi'n amgaeedig)

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**5. SETLIAD DRAFFT - STRATEGAETH ARIANNOL CYNGOR GWYNEDD 2019/20**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod.

**6. GRANTIAU 2019/20**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod.

**7. ADOLYGIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD** 10 - 11

I dderbyn adroddiad ar yr uchod.
(Copi'n amgaeedig)

**8. RHAGOLYGON 2019/20, 2020/21 A 2021/22**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod.

**9. DULL DYRANNU CYLLID CYNNAL TIROEDD YSGOLION** 12 - 19

I dderbyn adroddiad ar yr uchod.
(Copi'n amgaeedig)

**10. GWASANAETH RHWYDWAITH YSGOLION** 20

I dderbyn adroddiad ar yr uchod.
(Copi'n amgaeedig)

**11. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod.

**12. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Ystafell Dwyryd, Penrhyndeudraeth, ar 18 Mehefin 2018 o 14.00 hyd 15:30.**

**Yn Bresennol:**

**Mr Godfrey Northam – Cadeirydd**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Pennaeth Cyllid:** Dafydd Edwards (Eitem 1-6 yn unig)

**Penaethiaid Ysgolion:** Dylan Minnice (Ysgol Botwnog), Dylan Davies (Ysgol Dyfyn Ogwen), Elen ap Gwilym (Ysgol Bro Tegid), Iona Wyn Jones (Ysgol Bro Cynfal/Edmwnd Prys), Alan Jones (Ysgol Nefyn), Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn), Trystan Larsen (Ysgol Rhostryfan), Llion Williams (Ysgol y Garnedd), Owain Roberts (Ysgol Maesincla).

**Undebau Athrawon:** Neil Foden

**Llywodraethwyr:** Gwilym Jones (Ysgol Porth y Gest)

**Swyddogion:** Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaethau Adnoddau Addysg), Hefin Owen (Rheolwr Cyllid), Einir Thomas (Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol), Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD: Ail-ethol Mr Godfrey Northam yn Gadeirydd y Fforwm am y flwyddyn 2018/19.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD: Ail-ethol y Cynghorydd Gareth Thomas yn Is-gadeirydd y Fforwm am y flwyddyn 2018/19.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Anest Gray Frazer (Yr Esgobaeth), Menna Wynne-Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn), Andrew Roberts (Ysgol y Berwyn).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. <u>COFNODION</u>**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2018 fel rhai cywir.

## 6. MATERION YN CODI O'R COFNODION

**Eitem 6 – Cyllideb Cyngor Gwynedd 2018/19**

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau gan y Pennaeth Cyllid ynglŷn â'r newid i'r drefn arbedion a sut y bydd hyn yn effeithio ar gyllidebau ysgolion Gwynedd. Adroddwyd bod adroddiad "Paratoi ar gyfer sefyllfa ariannol aneglur o 2019/20" wedi mynd ger bron y Cabinet ar y 22 Mai 2018, a rhoddwyd crynodeb i'r aelodau o'r cynnwys.

Nodwyd bod y Llywodraeth yn debygol o barhau i gyfyngu arian llywodraeth leol, a bydd rhaid parhau i edrych am arbedion. Mae'r Strategaeth Ariannol tymor canol yn nodi bod angen unrhyw le rhwng £8.5 ac £17.5 miliwn o arbedion o 2019/20 ymlaen. Ni fydd y Cyngor yn gwybod beth fydd dyraniad grant 2019/20 y Cyngor cyn mis Hydref 2018, ond mae angen paratoi am y sefyllfa waethaf.

Amlygwyd bod y Cabinet wedi penderfynu dygymod gyda'r sefyllfa ariannol drwy:
- Ofyn i benaethiaid adrannau barhau i ystyried lle byddent yn arbed, pe byddai angen iddynt wneud hynny ar fyrder;
- Bod yn barod i restru cynlluniau arbedion yn ôl trefn ardrawiad ar drigolion Gwynedd;
- Pan fydd gwybodaeth am beth fydd y bwlch cyllidol yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref, bydd gweithdai o holl aelodau'r Cyngor yn cael eu cynnal i ystyried a dethol y cynlluniau arbedion gyda'r ardrawiad lleiaf ar drigolion Gwynedd;
- Y Cabinet i ystyried argymhellion y gweithdai a chynnwys rhestr o arbedion yn y Strategaeth Ariannol i'w gyflwyno i'r Cyngor.

Pwysleisir na fydd unrhyw ganran penodol o arbedion ar gyfer ysgolion, ond oherwydd yr amrediad eang iawn o bosibiliadau ariannol, dylai ysgolion baratoi trwy ystyried lle byddent yn medru arbed, pe byddai angen iddynt wneud hynny ar fyrder.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y prif bwyntiau canlynol:
- Mynegwyd pryder bod ysgolion llynedd wedi gorfod tynnu arian allan o'u cytundebau er mwyn cyrraedd y gorwariant ar fyr rybudd - nid yw yn dderbyniol. A oes sicrhad y bod hwn ddim yn digwydd eto eleni?
- Nodwyd bod grŵp allanol wedi ei sefydlu i edrych ar y mater o orwariant ymhellach.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 7. CYFRIFON TERFYNOL YSGOLION 2017/18

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Pennaeth Addysg ar yr uchod a thywyswyd yr Aelodau drwy ei gynnwys gan y Rheolwr Cyllid gan nodi yn gyffredinol bod balansau holl ysgolion Gwynedd wedi cynyddu £1,139,946 yn ystod 2017/18 i £4,018,478 sy'n cyfateb i 5.49% o'u dyraniad terfynol.

Ymhelaethwyd fel a ganlyn bod:

- 2 ysgol gynradd gyda chyfanswm diffyg -£7,891 (-£1,794 a -£6,097)
- 2 ysgol Uwchradd gyda chyfanswm diffyg -£173,691
- 1 Ysgol Arbennig gyda diffyg -£124,811

O safbwynt ysgolion mewn diffyg, awgrymwyd y dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gyda'r ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.

Mynegwyd pryder bod balansau rhai ysgolion yn parhau yn i fod yn uchel sydd yn gwneud amddiffyn y gyllideb addysg, yn sgil y toriadau ariannol, yn anodd iawn. Er bod ysgolion yn croesawu arian gan y Llywodraeth, yr hyn sy'n anodd ydoedd pan nad oes canllawiau i gynghori sut dylasai'r arian gael ei wario. Deallir hefyd, fod rhai ysgolion yn derbyn arian ychwanegol gan y Llywodraeth ar gyfer cynnal a chadw adeiladau ond pwysleisiwyd bod y cynnydd yn y balans ar wahân i'r pres hwnnw.

Nodwyd bod gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 (cynradd) neu £100,00 (uwchradd).

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod ysgolion cynradd yn awyddus i aeddfedu sustemau presennol i gael darlun byw o'r sefyllfa - mae ffigyrau ariannol yn hen hanes ac nid yw'n rhoi'r darlun real. Mae penderfyniad wedi ei wneud i sefydlu grŵp i edrych ar hyn ym mhellach.

- Mynegwyd pryder bod ysgolion yn derbyn rhai grantiau / cyfraniadau ariannol tan ddiwedd y flwyddyn ac yn annisgwyl, a ddim yn cael amser i gynllunio sut y bydd yn cael ei wario. Mae'n bwysig pwysleisio'r pwynt wrth i aelodau drafod y toriadau ariannol.

**Penderfynwyd: (i) Cymeradwy bod yr Adran Addysg a'r Adran Gyllid:**

**(a) Yn cydweithio'n agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**
**(b) Yn parhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**

## 8. GRANTIAU YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg ynghyd ag atodiad yn manylu'r prif grantiau sydd wedi'i datganoli i bob ysgol yng Ngwynedd am 2019/19, sef cyfanswm o £9.8 miliwn uwchben y £70 miliwn a ddyrannir gan y Cyngor.

Tywyswyd y fforwm drwy'r adroddiad - cyfeiriwyd at y grantiau unigol gan nodi:

- Grant Datblygu Disgyblion - eleni dyrennir £2,322,350 o'i gymharu â £2,271,450 yn 2017/18. Nodwyd y bydd y grant yn seiliedig ar ystadegau cinio am ddim PLASC Ionawr 2016 ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2018/19 a hefyd 2019/20.

- Grant Gwella Addysg (GGA) – eleni dyrennir £4,925,601 o'i gymharu â £5,217,001 yn 2017/18. Mae toriad sylweddol yn y grant ar lefel Cymru, -11% yn 2018/19 ac -8.5% pellach yn 2019/20.

- Grant y 6ed Dosbarth - eleni dyrennir £3,182,291 o'i gymharu â £3,407,388 yn 2017/18. Mae'r arian wedi lleihau am nifer o resymau; lleihad yn y nifer o ddisgyblion; lleihad yng nghyfartaledd nifer y cyrsiau mae disgyblion yn eu hastudio.

Er bod cyfanswm y grantiau, mwy neu lai wedi, aros yr un peth ers y llynedd, yn sgil y cynnydd yn y Cytundebau Tal Athrawon (5%) bydd ysgolion ar golled yn nhermau real. Nodwyd bod toriadau pellach eisoes wedi ei gyhoeddi gan y Llywodraeth ar gyfer 2019/20 sef -8.5% yn y GGA a -10% yn y Grant 6ed Disgyblion - nid yw'r ffigyrau yma wedi ffactori'r Cytundeb Tal Athrawon.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Mynegwyd yr Aelod Cabinet ei fod yn flin iawn gyda phenderfyniad y Llywodraeth i dorri grantiau addysg heb i'r Cyngor gael unrhyw ddweud yn y mater. Teimlwyd nad yw'r drefn o gyhoeddi'r toriadau yn dryloyw, bod y Llywodraeth yn gwneud y toriadau drwy ddrws cefn.
- Nid yw'r penawdau newyddion ar hyn sy'n cael ei adrodd yn y wasg yn rhoi'r darlun real i'r cyhoedd o faint y toriadau.
- Mae datganiadau ariannol y llywodraeth bob tro yn digwydd ar y dyddiad olaf ac mae'n amhosib rhagrybuddio ysgolion er mwyn iddynt roi cynlluniau yn ei lle.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**9. GRANT / CYLLIDEB GWISG YSGOL**

Adroddodd Uwch Reolwr Adnoddau Addysg, er gwybodaeth, bod y Cyngor wedi penderfynu parhau darparu'r Grant Cyllideb Gwisg Ysgol yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth i'w ddileu. Nodwyd bod y grant gan Gyngor Gwynedd yn ymestyn ymhellach na grant y Llywodraeth, gan ariannu gwisg ysgol ar gyfer disgyblion 7, 8, 9, 10 a 11, yn hytrach na ddisgyblion blwyddyn 7 yn unig.

Fodd bynnag, wedi i'r Cyngor wneud y penderfyniad hwn, cyhoeddodd y Llywodraeth bod y Grant Datblygu Disgyblion nawr yn cynnwys yr elfen o wisg ysgol i blant dosbarth derbyn – ddisgyblion blwyddyn 7. Bydd yr arian ar gael i blant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim ac i blant mewn gofal. Nodwyd bod y Cyngor yn croesawu'r penderfyniad yma gan y Llywodraeth ac am barhau i ariannu gwisg ysgol i ddisgyblion blwyddyn 8, 9, 10 a 11.

Amlygwyd nad yw'r Cyngor wedi derbyn rhagor o wybodaeth ynglŷn ag amodau a thelerau'r grant eto, ond bydd y wybodaeth yn cael ei rannu cyn gynted â phosib.

**Penderfynwyd:** Derbyn a nodi'r uchod.

**10. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Adnoddau Addysg ar y Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) i ysgolion ynghyd a'u hymatebion a sylwadau ar wahanol gytundebau.

Tynnwyd sylw at CLG Cynnal Tiroedd gan nodi bod ei ffurf yn hollol newydd ar gyfer 2018-21 ac mae gwaith cyfrifo manwl ar gyfer anghenion pob safle ysgol unigol wedi'i wneud a'i anfon at yr ysgolion perthnasol. Ar gyfer 2018-19, mae pris y CLG Cynnal Tiroedd yn cyfateb i bris y llynedd ar ôl ychwanegu chwyddiant. Pwysleisiwyd bod rhaid edrych ar ail fodelu'r dyraniadau ar gyfer Cynnal Tiroedd i ysgolion yn y dyfodol fel eu bod yn adlewyrchu'n well ar ofynion cynnal tiroedd safleoedd unigol.

Amlygwyd mai dim ond 35 allan o 86 ysgolion cynradd a 6 allan o 13 ysgolion uwchradd sydd wedi dewis y CLG Cynnal Tiroedd eleni. Os yw ysgolion yn dewis mynd at gwmni arall i gynnal y gwasanaeth, nodwyd ei fod yn bwysig sicrhau bod y cwmni yn dilyn canllawiau penodol.

Bwriedir cynnig y CLG i ysgolion yn gynharach flwyddyn nesaf fel bod ysgolion yn cael mwy o amser i gynllunio ac i sicrhau eu bod yn weithredol o Ebrill y 1af.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**11. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2018/19**

**PENDERFYNWYD:** **Cynnal y cyfarfodydd nesaf:**

**(a) Diwedd mis Tachwedd 2018**
**(b) Diwedd mis Ionawr/dechrau mis Chwefror 2019**
**(c) Canol mis Mehefin 2019**

**Dyddiad yw pennu gyda Chadeirydd a swyddogion y Fforwm.**

**<u>CADEIRYDD</u>**

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | FFORWM CYLLID YSGOLION |
| DYDDIAD | 19 Tachwedd 2018 |
| TEITL | Cyllideb  Integreiddio - Arall |
| PWRPAS | Cyflwyno er gwybodaeth |
| ARGYMHELLIAD | Derbyn yr Adroddiad |
| AWDUR | Einir Thomas<br>Uwch Reolwyr ADY |
| AELOD CABINET DROS ADDYSG | Y Cyngh Gareth Thomas |

**1. Sefyllfa Bresennol**

Isod fe welir dabl sy'n olrhain cost Datganiadau/CDU o 2016 ymlaen

| Cyllid Integreiddio | | | | amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
| Datganiadau/CDU | £3,896,000 | £4,431,000 | £5,013,000 | £5,437,000 |
| Arall | £1,891,000 | £1,491,000 | £674,000 | - |
| Cyfanswm | £5,787,000 | £5,922,000 | £5,687,000 | £5,437,000 |
| Cynnydd oddeutu £500,000 pob blwyddyn  yng nghost Datganiadau a CDU - Awdurdod | | | | |

Nid yw cost datganiadau/CDU ar gyfer 2019/20 yn wybyddus i ni ar hyn o bryd.

Mae effaith blwyddyn gyfan Gwedd 2 o'r Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn tynnu £247,000 o arbedion o'r pennawd Integreiddio Arall yn 2019/20.

Mae gweddill cyllid y pennawd Integreiddio Arall wedi'i drosglwyddo yn llwyr ar gyfer ariannu amcangyfrif twf sylweddol pellach ar y pennawd Integreiddio Datganiadau/CDU.

**2. Ymchwiliad – rhesymau dros y gorwariant**


Yn Gorffennaf 2018 comisiynwyd arbenigwr annibynnol allanol i ymchwilio i'r gorwariant.

Creuwyd Cynllun Gweithredu a bellach mae dwy ffrwd gwaith wedi ei gwblhau –

- Ailstrwythuro'r Panel Cymedroli
- Adroddiad ar Ddata ADY a Chynhwysiad yn cael ei gyflwyno i'r arbenigwr annibynnol allanol

O’r ymchwil hyd yma fe ellir crynhoi fel a ganlyn-

- Rhwng 2015 a 2018, mae cynnydd yn y nifer o blant sy’n derbyn cefnogaeth o 239 i 549 - cynnydd o 310. (Prif Lif ac Ysgolion Arbennig).
- Wrth edrych ar y data mae nifer o blant wedi o leiaf dyblu ymhob dalgylch.
- Diddorol yw nodi mae dalgylch Ysgol Syr Hugh Owen mae’r nifer mwyaf o blant sydd yn derbyn gwasanaeth, gyda dalgylch Ysgol Friars a Tryfan yn ail.
- Fesul wythnos mae’r Awdurdod yn darparu 12593.42 o oriau yn 2018, i gymharu â 5640.95 yn 2015 - ond mae’n bwysig nodi er y cynnydd mae oriau cyfartalog fesul plentyn fesul wythnos wedi lleihau ychydig - 23.6 yn 2015 i 22.94




- Yn seiliedig ar ffigyrau darpariaeth wythnosol, mewn blwyddyn ysgol darperir 415,582.86 o oriau yn 2018, mewn cymhariaeth i 186,151.35 yn 2015.

**3. Casgliadau**

- Mae’r gyllideb Integreiddio Arall wedi’i ddileu yn llwyr ac wedi’i drosglwyddo i gyllideb Integreiddio Datganiadau/CDU.
- Mae’r ymchwiliad i’r rhesymau am y cynnydd yn y ddarpariaeth Integreiddio Datganiadau/CDU yn parhau.
- Yn dilyn cyflwyno’r Adroddiad Ymchwil bydd argymhellion ar gyfer gweithrediad i reoli’r sefyllfa yn cael eu nodi.
- Ni ddylid diystyru unrhyw dwf pellach yn y ddarpariaeth Integreiddio Datganiadau/CDU, a posibilrwydd o orfod hunan gyllido y twf o fewn y cwantwm ysgolion.

**EITEM 9**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **19 Tachwedd 2018** |
| **TEITL** | **Cynnal Tiroedd Ysgolion** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Argymell newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion** |
| **AWDUR** | **Owen Owens**<br>**Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |

1 <u>Cyllid Cynnal Tiroedd Ysgolion</u>

Mae cyllid cynnal tiroedd yn cael ei ddyrannu i ysgolion ar sail hanesyddol ar hyn o bryd. Yn 2018-19, dyrannwyd cyfanswm o £435,531 i ysgolion - £226,465 (safleoedd uwchradd), £6,625 (safleoedd arbennig) a £202,441 (safleoedd cynradd).

Yn ystod y rownd o gynnig cytundebau lefel gwasanaeth llynedd, nodwyd y bydd rhaid edrych ar ail-fodelu'r dyraniadau i ysgolion ar gyfer cynnal tiroedd i'r dyfodol fel bod y dyraniadau yn adlewyrchu'n well gofynion cynnal tiroedd y safleoedd unigol.

Ar gyfer 2018-19 roedd gwaith cyfrifo manwl a dadansoddiad o anghenion pob safle ysgol unigol wedi'i wneud a'i anfon at yr ysgolion oedd yn dewis y CLG Cynnal Tiroedd yn hanesyddol. Roedd y dadansoddiad o anghenion pob safle yn nodi gwaith craidd a gwaith dewisol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i adnabod a chyfrifo dadansoddiad o anghenion (craidd a dewisol) ***pob*** safle ysgol fel bod gwybodaeth gyflawn ar gael o anghenion cynnal tiroedd ***holl*** ysgolion Gwynedd.

Mae enghreifftiau o'r math o waith cynnal tiroedd sy'n bwydo'r cyfrifiadau i lunio'r 'cyfanswm oriau craidd' ar gyfle safle ysgol i'w gweld yn **Atodiad 1** (cynradd) ac **Atodiad 2** (uwchradd).

2 <u>Ail-fodelu dyraniadau ysgolion</u>

O fod â dadansoddiad o anghenion oriau craidd pob safle, h.y. y gwaith cynnal tiroedd fyddai ei angen er mwyn sicrhau gwasanaeth o lefel priodol sydd yn ddigonol/addas i gynnal digwyddiadau a gynhelir, er mwyn lles a diogelwch y disgyblion ynghyd â safon gweledol a chadwriaethol y safle, y bwriad

dosbarthu cyllid cynnal tiroedd ysgolion 2019-20 mewn cymhareb â’r dadansoddiad o anghenion oriau craidd y safleoedd unigol.

3 Argymhelliad

Bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn argymell newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion yn 2019-20 i fod yn dyrannu’r cyllid mewn cymhareb â’r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd y safleoedd unigol.

| **Ysgol XXX** | **Rhif: 1234** |
|---|---|

| | | **Cynnal Tiroedd<br>Grounds maintenance** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd**<br>***Activity*** | | Torri Gwair<br>*Grass Cutting* | Torri Gwrych<br>*Hedge Cutting* | Shrubs | W-Kill | Trees | |
| **Nifer o Ddigwyddiadau**<br>***No. of events*** | | **12** | **2** | **2** | **1** | **1** | |
| **Amser un digwyddiad (oriau)**<br>***Time of one event (hours)*** | | 1.95 | 4.5 | 3.0 | 0.45 | 1.00 | **Cyfanswm**<br>***Total*** |
| **Cyfanswm blwyddyn (oriau)**<br>***Total for year (hours)*** | | **23.4** | **9** | **6** | **0.45** | **1** | **39.85** |

| | | **Marcio Meddal a Chaled<br>*Hard and soft Markings*** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Marcio Meddal<br>*Soft Markings*** | | | **Marcio Caled<br>*Hard Markings*** | | |
| **Gweithgaredd**<br>***Activity*** | | Rygbi<br>*Rugby* | Pêl-droed<br>*Football* | Trac<br>*Track* | Pêl-rwyd / Pêl-droed / Tenis / Ffordd gyda chroesffyrdd<br>*Netball / Football /* Tennis / *Road with junctions* | Trac Dali Fynd<br>*'Dal i Fynd' track* | |
| **Nifer Digwyddiadau/Eitemau**<br>***No. Events/Items*** | | **1** | **1** | **1** | **4** | **1** | |
| **Amser un digwyddiad (oriau)**<br>***Time of one event (hours)*** | | | 1 | 1.25 | 1.31 | 3.23 | **Cyfanswm**<br>***Total*** |
| **Cyfanswm blwyddyn (oriau)**<br>***Total for year (hours)*** | | | **1** | **1.25** | **5.31** | **3.23** | **10.79** |

| **Cyfanswm oriau craidd**<br>***Total core hours*** | **50.64** |
|---|---|

**Gwaith Ychwanegol Dewisol / *Optional Extra Work***

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwaith Ychwanegol Dewisol** ***Optional Extra Work*** | | | | | | | | |
| | | **Marcio Caled** ***Hard Marking*** | | | | | | **Arall** ***Other*** | | |
| **Gweithgaredd** ***Activity*** | | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Salt Bins | Torri Gwair *Grass Cutting* (Cut & Collect Service) | |
| **Cost yr eitem (£)** ***Cost per item (£)*** | | **£29.44** | **£46.15** | **£55.14** | **£64.13** | **£73.12** | **£113.47** | **£10 per 25kg bag delivered** (min 4x bag per order) | **Upon request & site survey** | |
| **Nifer eitemau** ***No. of items*** | | 10 | 2 | 8 | 0 | 0 | 3 | | | **Cyfanswm** ***Total*** |
| **Cyfanswm cost** ***Total cost*** | | **£294.40** | **£92.30** | **£441.12** | | | **£340.41** | | | **£1,168.23** |

Mae rhan uchaf y tabl yn nodi'r gwahanol fathau o waith torri gwair, strimio, torri llwyni/coed, defnyddio chwynladdwr ayyb. sydd angen eu cyflawni ar safle’r ysgol.

Mae hefyd yn dangos amlder cyflawni’r mathau o waith, ac amcan o faint o amser byddai’r gwahanol elfennau o waith yn eu cymryd pob tro.

Mae rhan ganol y tabl yn nodi'r mathau o waith marcio meddal a chaled (rygbi, pêl-droed, trac rhedeg) sydd angen eu cyflawni ar safle’r ysgol, gan eto dangos amlder cyflawni’r mathau o waith, ac amcan o faint o amser byddai’r gwahanol elfennau o waith yn eu cymryd pob tro.

**Rhain yw’r gweithgareddau craidd o anghenion y safle.**

Mae rhan isaf y tabl yn nodi’r gwasanaethau ychwanegol sydd wedi’u hadnabod ar gyfer safle’r ysgol.

……………………………………………………………………………………………………………………………………………………………………

*The upper part of the table notes the different types of grass cutting, strimming, shrubs/trees cutting, weed killer application etc., which needs to be undertaken on your school site.*

*It also notes the frequency at which each element of work will be undertaken, and an estimate of the time each element would take for each occurrence.*

*The middle part of the table shows the different types of soft and hard marking (rugby, football, and running track) needed on the school site, again showing the frequency of undertaking each element of the work, and an estimate of the time taken for each element for each occurrence.*

***These are the core activities of the site requirements.***

*The lower part of the table notes the additional Services which have been identified for the school site.*

O ran y Marcio Caled, dyma'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y bandiau gwahanol:

*With respect to Hard Marking, this is what is included in the different bands:*



| Band | Marcio Caled |
|---|---|
| **A** | Targed Bach, 'Hopscotch', Cloc, Sgwâr, Grid Yr Wyddor<br>*Small Target, Hopscotch, Clock, Square, Alphabet Grid* |
| **B** | Cwmpawd, Drysfa<br>*Compass, Road with Junctions* |
| **C** | Hoel Traed, Neidr, 'Swirl', Cylch, Bws<br>*Foot Prints, Snake, Swirl, Circle, Bus* |
| **D** | Ysgol, '0's & Crosses', Pen Tedi, Grid 1-100, Araf Croesfan<br>*Ladder, 0's & Crosses, Teddy's Head, Grid 1-100, Slow Crossing* |
| **E** | Llinellau, Gwe Pry Cop, Blodyn Mawr, Map o Gymru, Roced Gwaddon<br>*Lines, Spider Web, Large Flower, Map of Wales, Rocket Mole* |
| **F** | Nadroedd & Ysgolion, Bwrdd Draffts, Targed mawr<br>*Snakes & Ladders, Draughts Board, River, Large Target* |

**Asesiad anghenion craidd safle uwchradd / *Secondary site core requirements assessment*** **Atodiad 2 / *Appendix 2***

| Ysgol XXX | Rhif: 1234 |
|---|---|

| | | Cynnal Tiroedd<br>Grounds maintenance | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd**<br>***Activity*** | | Torri Gwair<br>*Grass Cutting* | Torri Gwrych<br>*Hedge Cutting* | Shrubs | W-Kill | Trees | |
| **Nifer o Ddigwyddiadau**<br>***No. of events*** | | **15** | **2** | **2** | **1** | **1** | |
| **Amser un digwyddiad (oriau)**<br>***Time of one event (hours)*** | | 6.5 | 3 | 2 | 3 | 1 | **Cyfanswm**<br>***Total*** |
| **Cyfanswm blwyddyn (oriau)**<br>***Total for year (hours)*** | | **157.5** | **6** | **4** | **3** | **1** | **171.5** |

| | | Marcio Meddal a Chaled<br>*Hard and soft Markings* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd**<br>***Activity*** | | Rugby | Football | Track 400 | Track 100 | |
| **Nifer o Ddigwyddiadau**<br>***No. of events*** | | **1** | **1** | **1** | **1** | |
| **Amser un digwyddiad (oriau)**<br>***Time of one event (hours)*** | | 2 | 2 | 3 | 1 | **Cyfanswm**<br>***Total*** |
| **Cyfanswm blwyddyn (oriau)**<br>***Total for year (hours)*** | | **2** | **2** | **3** | **1** | **8** |

Gwaith Arall Craidd / *Other Core Work*

| | | Gwaith Arall Craidd *Other Core Work* | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** ***Activity*** | | Aerate Football | Aerate Rugby | Roll Football | Roll Rugby | Einbock Football | Einbock Rugby | Long Jump Run Up | Long Jump Sand Pit | | |
| **Nifer o Ddigwyddiadau** ***No. of events*** | | **4** | **4** | **2** | **2** | **1** | **1** | **1** | **1** | | |
| **Amser un digwyddiad (oriau)** ***Time of one event (hours)*** | | 2 | 2 | 1.25 | 1.25 | 1 | 1 | 1.25 | 1 | | **Cyfanswm** ***Total*** |
| **Cyfanswm blwyddyn (oriau)** ***Total for year (hours)*** | | **8** | **8** | **2.5** | **2.5** | **1** | **1** | **1.25** | **1** | | **25.25** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm oriau craidd** ***Total core hours*** | **204.75** |



Gwaith Arall Dewisol / *Other Optional Work*

| | | Gwaith Arall Dewisol *Other Optional Work* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** ***Activity*** | | Salt Bins | | Torri Gwair *Grass Cutting (Cut & Collect service)* | Jap Knotweed | |
| **Cost** | | **£10 per 25kg bag delivered** (min 4x bags per order) | | **Price upon request & site survey** | **Price upon request & site survey** | |
| **Nifer** ***Amount*** | | | | | | **Cyfanswm** ***Total*** |
| **Cyfanswm cost** ***Total cost*** | | **£** | **£** | **£** | **£** | **£ XXX** |

Mae rhan uchaf y tabl yn nodi'r gwahanol fathau o waith torri gwair, strimio, torri llwyni/coed, defnyddio chwynladdwr ayyb. sydd angen eu cyflawni ar safle’r ysgol.

Mae hefyd yn dangos amlder cyflawni’r mathau o waith, ac amcan o faint o amser byddai’r gwahanol elfennau o waith yn eu cymryd pob tro.

Mae ail ran y tabl yn nodi'r mathau o waith marcio meddal a chaled (rygbi, pêl-droed, trac rhedeg) sydd angen eu cyflawni ar safle’r ysgol, gan eto dangos amlder cyflawni’r mathau o waith, ac amcan o faint o amser byddai’r gwahanol elfennau o waith yn eu cymryd pob tro.

Mae trydydd rhan y tabl yn nodi'r mathau o gynnal caeau chwarae a phitiau tywod sydd hangen ei gyflawni ar safle’r ysgol, gan eto dangos amlder cyflawni’r mathau o waith, ac amcan o faint o amser byddai’r gwahanol elfennau o waith yn eu cymryd pob tro.

**Rhain yw’r gweithgareddau craidd o anghenion y safle.**

Mae rhan isaf y tabl yn nodi’r gwasanaethau ychwanegol sydd wedi’u hadnabod ar gyfer safle’r ysgol.



........................................................................................................................................................................

*The upper part of the table notes the different types of grass cutting, strimming, shrubs/trees cutting, weed killer application etc., which needs to be undertaken on your school site.*

*It also notes the frequency at which each element of work will be undertaken, and an estimate of the time each element would take for each occurrence.*

*The second part of the table shows the different types of soft and hard marking (rugby, football, and running track) needed on the school site, again showing the frequency of undertaking each element of the work, and an estimate of the time taken for each element for each occurrence.*

*The third part of the table shows the different types of maintenance of pitches and sand pits needed on the school site, again showing the frequency of undertaking each element of the work, and an estimate of the time taken for each element for each occurrence.*

***These are the core activities of the site requirements.***

*The lower part of the table notes the additional Services which have been identified for the school site.*

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Fforwm Cyllideb Ysgolion** |
| **DYDDIAD** | **19eg Tachwedd, 2018** |
| **PWNC** | **Newidiadau yng nghostau cyswllt a darpariaeth rhwydwaith i ysgolion y Sir** |
| **AWDUR** | **Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Trawsnewid Busnes)** |

<u>Cefndir</u>

1. Fe gyflwynodd cynllun "Dysgu yn y Gymru Ddigidol" gysylltiadau cyflym a sefydlog i ysgolion Cymru a'r sail 10mbps i ysgolion cynradd a 100mbps i ysgolion uwchradd a cynradd dros 270 o ddisgyblion.
2. Cyflwynwyd y cynllun ar gychwyn 2014, gan ymestyn hefyd i gynnwys cysylltiadau di-wifr drwy'r ysgolion.
3. Cafwyd buddsoddiadau enfawr mewn rhai ardaloedd, yn enwedig ambell lecyn ddiarffordd ble nad oedd isadeiledd Openreach yn cyrraedd yr ysgol. Pwrpas y buddsoddiad oedd i gyflwyno cysylltiadau ffibr fyddai'n hyblyg i gynyddu cyflymder i'r rhwydwaith ar gyfer y dyfodol.
4. Mae darpariaeth cadarn yn oll o ysgolion y Sir a byddwn yn gweld cyflymder yr ysgolion yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y misoedd nesaf wrth i gynllun adnewyddu gael ei gyflwyno.
5. Mae newidiadau i'r rhwydwaith wedi ein galluogi i wella darpariaeth teleffoni oddi fewn nifer o ysgolion, gydag 26 o ysgolion wedi eu cwblhau hyd yma.
6. Yn ogystal ac ymgyrchu a gweithredu i gyflwyno gwell gwasanaeth, mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi bod yn negodi am ffioedd cystadleuol gyda BT Global Services (darparwr rhwydwaith sector gyhoeddus Cymru).
7. Mae'r ymgyrchu am delerau gwell wedi cyflwyno arbedion o £164,252 y flwyddyn ar draws ysgolion Gwynedd.
8. Mae datblygiadau technegol wedi cyflwyno arbedion pellach o £55,321 y flwyddyn.
9. Mae cost y gwasanaeth ac hefyd dyraniad ysgolion yn lleihau am yr un swm.
10. Parhau fydd ein gweithgareddau i wella'r rhwydwaith a chysylltedd i oll o ysgolion Gwynedd gan warchod unrhyw gynnydd yn y costau blynyddol.
11. Mae hyn yn rhoi cyfle i adolygu y sail dyrannu. Bwriedir ymgynghori gydag ysgolion ar y opsiynau isod –
    a. parhau gyda'r drefn presennol
    b. symud yn agosach tuag at ddosbarthu ar sail nifer disgyblion